

**O Bennod “ Y Bws Chwarel” yn “Canrif y Chwarelwr gan Emyr Jones (Gwasg Gee 1963)**

### **Eira mawr Chwefror 1929**

Y rhan waethaf o'r ffordd i fws y chwarel oedd Gelltydd Hafodlas, sef y ddwy allt serth a throellog rhwng Ceunant a Thanycoed. Yr oeddynt mor serth fel y byddai'n rhaid i'r gyrrwr 'newid i lawr' ar dop yr allt gyntaf cyn cychwyn ar y goriwaered gyda'i fws gorlawn. Wrth ddod adre yr oedd y stori'n dra gwahanol, a'r hen fws yn chwyrnu'n ffyrnig wrth ddringo'n falwennaidd yn y ger isaf. Byddai'r dwr weithiau'n berwi nes bod cymylau o stem yn codi o'r injian; a'r dynion yn gweiddi, ' Fish and Chips! ' ar dop eu lleisiau. Yn ami iawn byddai'r allt yn drech na pheiriant y ' Lancia ' a byddai'n rhaid i hanner y llwyth neidio i lawr a mynd y tu ôl i wthio.

Pan fyddai trwch o eira ar y ffordd nid oedd siawns o gwbl i'r bws ddringo'r gelltydd, a byddai'n rhaid teithio ymlaen i Bontrug a dod adref drwy Gaeathro, neu ddefnyddio Lon Pen Cefn os digwyddai honno fod yn glir. Felly y bu am wythnosau adeg yr eira mawr yn Chwefror 1929 [11 Chwefror 1929]. Buasai'n eithriadol o oer am rai dyddiau cyn yr ystorm. Rhedodd y tri bws o'r Waun fel arfer yn y bore gan nad oedd wedi dechrau bwrw eira yr adeg honno. Pan gyrhaeddwyd y chwarel, modd bynnag, ni allai neb weithio gan fod y beipen ddwr a borthai'r ' compressor ' a dwr y cafnau yn y sied wedi rhewi'n solet. Dechreuodd luwchio o ddifrif tua naw o'r gloch, a'r gwynt yn gyrru o'r de-ddwyrain.

Brysiodd 'dynion y topia' i lawr i waelod y gwaith a phenderfynwyd i deliffonio Cwmni'r Crosville yng Nghaernarfon i ofyn iddynt anfon bws i fyny ar unwaith.

Gwaethygodd y storm yn gyflym, ac erbyn i'r bws gyrraedd yr oedd y lluwchfeydd hyd at bennau'r cloddiau a dim ond rhimyn cul o ganol y ffordd yn y golwg. Aethpwyd i drybeini gryn hanner dwsin o weithiau rhwng Llanberis a Chwmyglo, a ninnau'n gorfod mynd i lawr bob tro i gicio a chrafu o flaen yr olwynion a cheisio gwthio'r bws ymlaen. Ger y Lleiniau, Llanrug, yr oedd tri bws ac amryw foduron wedi ymgladdu yn y lluwch nes cau'r ffordd yn gyfangwbl. 'Doedd dim amdani wedyn ond i bawb geisio gwneud ei ffordd adref gorau y gallai. Trefnwyd i bob crwt o rybelwr fod yng ngofal rhywun hyn, a chychwynwyd i gyfeiriad Plas Tirion gyda'r bwriad o gerdded y pum milltir i'r Waun hyd Lôn Pen y Cefn.

Yr oedd yn dywyll erbyn hyn, a ninnau'n flinedig ar ôl bustachu gyda'r bws am oriau, ac heb ddim i'w fwyta er amser brecwast ac eithrio ambell frechdan o'r tun bwyd. Ni allai ond dau gerdded ochr yn ochr, a cherddem yn llinell sengl y rhan fwyaf o'r ffordd. Griffith Jones, y Fron Olau ('Rhen Gyrnant) a ofalai amdanaf fi, a balch oeddwn o gael swatio wrth ei gwt i gael tipyn o gysgod, a dilyn ôl ei droed— yn llythrennol.

Erbyn cyrraedd Gallt Cae Main yr oedd amryw o'r fintai wedi llwyr ddiffygio a bron rhoi i fyny'r ymdrech gan eu bod yn mygu'n lan, ond yr oedd eraill yn eu calonogi a'u cymell ymlaen gan gydio'n eu breichiau i'w helpu. Wedi dringo'n galed a chropian yn hanner dall dros luwchfeydd anferth, llwyddwyd o'r diwedd i gyrraedd gwastadedd y Waun. Yn ffodus i mi, 'roedd cartref Griffith Jones y pryd hwnnw filltir neu ragor y tu allan

i'r Waun, ar ffordd Betws Garmon. Wedi cael cwpaned o de gan Mrs. Jones teimlwn yn llawer mwy o ddyn, ac yn atebol i gerdded y filltir a hanner arall a oedd rhyngof a'm cartref. Er i'r ddau grefu arnaf i aros gyda hwy hyd y bore, gwyddwn y byddai mam yn bryderus yn fy nghylch, ac nad ai i orffwys ar y fath noson nes y cyrhaeddwn adref.

Yr oedd yn tynnu at ddeg o'r gloch pan gyrhaeddais y ty— fel dyn eira! Y peth cyntaf a wnaeth mam oedd tynnu'r talpiau rhew oddi ar fy aeliau, ac yna ceisiodd ddatod botymau fy nghot uchaf, ond yr oeddynt wedi rhewi'n gorn. Cofiaf iddi gymryd y gyllell fara oddi ar y bwrdd a thorri'r cwbl ymaith a gosod y got i sefyll wrth fy ochr!

Clywais wedyn i un o'r fintai—bachgen pymtheg oed—roi'r ffidil yn y to cyn cyrraedd adref, ac iddo droi i gwt mochyn ar fin y ffordd, ac yno, yng ngwres yr hwch y cysgodd tan y bore. Gallasai fod wedi gwneud yn llawer gwaeth!

Bu'r chwarel ynghau am chwech wythnos yr adeg honno, a phan ail-ddechreuodd gorfu i chwarelwyr y Waun gerdded at y tren i Bonrhythallt am tua phythefnos nes clirio'r ffyrdd yn ddigon da i fws y chwarel ail-ddechrau.

**Bywgraffiad Emyr Jones o glawr y gyfrol:**

Brodor o'r Waun Fawr, Arfon, yw Emyr Jones. Tra'n gweithio yn Chwarel Dinorwig yn ystod y tri degau, daeth o dan ddylanwad nifer o chwarelwyr llengar a weithiai ym Mhonc y Muriau, ac yno y bwriodd ei brentisiaeth fel prydydd trwy ysgrifennu englynion a thelynegion ar grawiau a'u trafod yn y caban bwyta yn ystod yr awr ginio. Enillodd ei gadair gyntaf - blocyn holli - yn Eisteddfod y Chwarel yn 1938. Ymddiddorodd mewn cerddoriaeth yn ieuanc a daeth yn un o arweinwyr y gan yng Nghapel Salem cyn bod yn ddeunaw oed. Fel canwr cornet enillodd lu o wobrau yn cynnwys nifer o gwpanau arian. a bu'n cynorthwyo pob un o fandiau'r chwarelwyr yn eu tro. Treuliodd chwe blynedd yn y Lluoedd Arfog gan wasanaethu rhan o'r amser yn Norwy. Wedi ei ryddhau o'r Fyddin aeth am gwrs o hyfforddiant i Goleg

Athrawon Wrecsam. Tra yno enillodd gadair Eisteddfod y Coleg am farddoniaeth, a hefyd gadair yr Eisteddfod Gyd-golegol yn Llandrindod. Ers pym-theng mlynedd bellach y mae'n athro ysgol yn Nhywyn, Abergele. Eithr nid anghofiodd ei ddyddiau cynnar yn y chwarel ac ysgrifen-nodd Haws o erthyglau ar chwarelyddiaeth i gylchgronau Saesneg.

Ysgrifennodd y gyfrol hon fel teyrnged i chwarelwyr Arfon gan obeithio y bydd yn gymorth i'r presennol ddod yn fwy hyddysg yn hanes eu tadau a'u teidiau a thrwy hynny werthfawrogi'r etifeddiaeth gyfoethog a drosglwyddwyd iddynt o Ganrif y Chwarelwr.